

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser

Y mae yna rywbeth ynom fel hil sy'n trysori Mawl.

Cân o fawl yw'n caneuon serch.

Cân o fawl yw'n "chantio" ar gau pêl droed neu rygbi. Cân o fawl yw'r clod a ddarlledir ar y cyfryngau pan ddarganfyddir dawn fel dawn Ben Woodburn. Cân o fawl yw'r hysbysebion ar deledu – mawl i rinweddau car arbennig, pâst dannedd, siocled neu bowdwr golchi.

Yn wir fe ellid dadlau mai'r hyn a ganmolwn yw gwir ffenestr ein heneidiau, y datganiad cyhoeddus o'r pethau a ystyriwn yn bwysig!

Drosodd a thro yn yr ysgrythurau cawn ein hannog i ganu mawl i'r Arglwydd. Yn y moliant o'r Hwn sydd harddaf, mwyaf gogoneddus a phur y bodlonir ein heneidiau.

Fe wyddom fodd bynnag nad yw datganiadau am ddiben pennaf y ddynoliaeth i ogoneddu Duw a'i fwynhau yn dragwydd yn ddeniadol nac yn cael y lle blaenaf yn ein calonnau wrth reddf a natur.

Dadansoddiad yr Ysgrythur amdanom yw hyn

Onid y drwg ydy, er bod pobl yn gwybod fod Duw'n bodoli, maen nhw wedi gwrthod ei anrhydeddu a diolch iddo. Yn lle hynny maen nhw wedi hel pob math o syniadau dwl. Maen nhw wir yn y tywyllwch. Ydyn, maen nhw'n meddwl eu bod nhw mor glyfar, ond ffyliaid ydyn nhw go iawn! Yn lle addoli'r Duw

bendigedig sy'n byw am byth bythoedd...maen nhw wedi credu celwydd yn lle credu beth sy'n wir am Dduw! Maen nhw'n addoli a gwasanaethu pethau sydd wedi cael eu creu yn lle addoli'r Crêwr ei hun! – yr Un sy'n haeddu ei foli am byth! Amen! (Rhufeiniaid 1 beibl.net)

sy'n caru celfyddyd dilyffethair cerddoriaeth! Fy ngwir ddyhead yw y bydd pob Cristion yn caru ac yn prisio ac yn anrhydeddu rhodd hardd cerddoriaeth fel rhodd werthfawr, anrhydeddus sy'n drysor drudfawr a roddwyd gan Dduw i'r ddynoliaeth. ...Y mae'r person sy'n meddwl am y pethau hyn ond sydd heb

ystyried cerddoriaeth fel rhodd ryfeddol creadigaeth Duw yn gwbl ddi-ddiwylliant yn byw yng nghanol y twyrch a'r pridd. Nid yw'n deilwng i gael ei alw'n fod dynol; dylid sicrhau na fydd y person hwnnw'n cael ei ganiatáu i glywed dim byd arall heblaw am nadu mulod a rhochion moch.

Bid a fo am hynny!

Onid os yw addoli yn reddf naturiol sy'n cael ei rannu ar draws holl ddiwylliannau'r byd mae'n anorffod felly bod addoli Duw goruwchnaturiol yn galw am ddawn oruwchnaturiol. Nid yw'n rhyfedd felly bod Iesu Grist, wrth iddo sgwrsio gyda gwraig grefyddol anghenus, yn dweud, (fel a genir ar ddechrau oedfaon mewn Intrada ar draws cynulleidfaoedd Cymru)

Dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae, pan addolo'r gwir addolwyr y Tad, mewn Ysbryd a gwirionedd.

Nid yw gwir addoliad yn y lle cyntaf yn ddibynnol ar allu'r arweinydd i greu "naws addolgar" na theimlad priodol. Yn ôl Iesu dau beth yn unig sydd ei angen mewn gwir addoliad. Yr Ysbryd. A'r Gwirionedd.

Rhodd ysbrydol yw gwir addoliad. Rhodd (parhad ar dudalen 2)



Ac eto, mae'r Cristion gwannaf ei ffydd yn gwybod am y profiad o gael ei drawsffurfio gan sainiau a mawl. Pan glywn gerddoriaeth aruchel, ac emynau'n cael eu canu yn fawl i Dduw, caiff yr unigolyn mwyaf dinod ei gipio ar adenydd mawl i gwmpeini angylion a pherffaith donyddiaeth y greadigaeth ar ei orau. A pha fraint arall all gystadlu â'r profiad llesmeiriol o addoli gwir wrthrych mawl.?

Nid oes rhaid i ni gytuno gyda holl ddatganiadau amrwd, byw, y Diwygiwr Protestannaidd Martin Luther er mwyn i ni allu adnabod realiti ei ddatganiad. Mewn Rhagair i gasgliad o emynau yn 1538 dywedodd

Yr wyf fi Doctor Martin Luther yn dymuno gras a heddwch, oddi wrth Dduw y Tad a chan ein Harglwydd Iesu Grist i bob un,

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth y Parch Tom Roberts Caerdydd wedi cyfnod o waeledd. Yn enedigol o Benrhyndeudraeth gwasanaethodd fel gweinidog yng nghylch Talybont a Taliesin, Llanddewibrefi ac Aberteifi cyn cael ei alw i'r Swyddfa yng Nghaerdydd i wasanaethu fel Ysgrifennydd Bwrdd y Weiniadogaeth yn 1984. Bu'n ffyddlon fel Bugail a phregethwr, ac yn gymwynaswr i weiniadogion yn ystod ei gyfnod yn y

Cydymdeimlo

Swyddfa. Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwen ei wraig, ac i'r plant, Martin, Dewi a Mererid a'u teuluoedd. Bydded i heddwch yr efengyl eu hamgylchynu.

* * *

Yr ydym yn cofio yn ein gweddïau hefyd am deulu y diweddar Barch Huw Jones. Yn wreiddiol o Ogledd Môn,

teimlodd alwad i'r weiniadogaeth tra'n gweini ar ffermydd yn yr ardal honno. Wedi gadael Coleg y Bala, ordeiniwyd ef i ofalaeth y Drenewydd yn 1949, cyn symud yn gyntaf i Benygroes, Arfon ac yna i'r Bala yn 1962. Yr oedd yn anghyffredin o amryddawn, yn fugail gofalus ac yn lais cyfarwydd i genedlaethau. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant, Sioned a Cemlyn, a'i frawd a'i chwaer yn eu colled.

Taro'r Post

Annwyl Olygydd,



Canmol Cyfrol Hanes y Cyfundeb

Hoffwn longyfarch y Gymanfa Gyffredinol, Cyngor Llyfrau Cymru, Pwylgor Hanes yr Enwad, y Golygyddion, y Dr John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes a'm cyd gyfranwyr am y gyfrol hardd, swmpus, rhesymol ei bris am dros 500 o dudalennau. Y teitl Yr Ugeinfed Ganrif (c1914-2014). Cyfrol IV yn Hanes Methodistiaeth Cymru. Braint oedd cael bod ymhlith deuddeg o ysgolheigion y Cyfundeb a wahoddwyd a'r mwyafrif ohonom wedi rhoddi oes faith i'r enwad. Nid 5 mlynedd ond 50 mlynedd a mwy! Dyma gyfrol bwysicaf Gwasg Pantycelyn eleni heb amheuaeth a chyfrol sydd yn haeddu tudalennau lawer o adolygiad yn y Traethodydd. Camp y gyfrol, a darllenais bob tudalen, ydyw dadansoddiad na chafwyd erioed o'r blaen o'n llwyddiant fel enwad ond hefyd ein methiant anorfod i oresgyn difrawder y saint a seciwlaeriaeth

digymrodedd sydd yn parlysu'r blychau ennaint. Cafwyd astudiaeth gynhwysfawr am ein gofal am y plant a'r ifanc ond mae angen chwilio yn ddyfnach pam i'r to sydd yn codi, yn arbennig y chwarter canrif ddiwethaf, droi eu cefnau arnom. Dangosir gan bron bob un o'r cyfranwyr pa mor anodd yw cynnal capel Presbyteriaidd Cymraeg ac efallai mai yn eglwys Gymraeg Melbourne y llwyddid orau, lle ceir tri brawd yn diogelu'r dreftadaeth yn llawn amser. Ond bron y cyfan trwy gyfrwng y Saesneg. Pa gapel arall a ddaeth o'n cefndir sydd yn yr un dosbarth? Methwyd yn druenus yng nghymoedd De Cymru. Dengys Dr Huw Owen fel mai Cwm Cynon wedi mynd yn ddiffieithwch crefyddol i'r Methodistiaid Calfaidd. Capel Bedyddwyr fy nhad yng nghyfraith yn Abercwmboi yw'r werddon i'r Cymry Cymraeg a Siloa, Aberdâr yn hanes yr Annibynwyr. Nid ydym yn barod i brynu llyfrau, cylchgronau na'r papur ardderchog hwn, y Goleuad. O leiaf gallwn gefnogi. Meddylier am gyfrol Robert Beynon, Abercraf ar y Salmu yn gwerthu 60,000 o gopiâu yn y ddau ddegau, dwywaith mwy na hunangofiant Nigel

Owen yn ein dyddiau ni. Ond y mae gennym ugain mil o aelodau. Beth am ddweud hyn wrth ein gilydd? Trafodir yn glir pam i'r enwad lwyddo y tu hwnt i bob disgwyl yn Salem, Canton ac yn Eglwys Unedig Toronto. Crybwyllir hefyd am gapeli a fu yn ddewr yn Lerpwl, Bangor, Llandrillo – yn Rhos i adeiladu capeli newydd sbon, a chofleidio'r syniad o uno, a mentro. Mae hi yn stori arwrol. Ffordd hawdd yw cau capel, y dasg yw ei warchod a'i addasu a'i gyflwyno yn ased i'r gymuned leol.

Nid oes raid imi ddweud ein bod mewn enbydrwydd mawr ond fel dywed Glyn Tudwal Jones yn y bennod sy'n cloriannu ac yn edrych ymlaen nid ydym yn gwbl amddifad. Y mae Duw y Tad, y Mab ein Gwaredwr, a'r Ysbryd Glân yn arwain ein gweithgareddau ysbrydol ac ymarferol – ie gweddi a gwaith. Gobeithio y caiff miloedd o aelodau'r Corff yr un mwynhad ac a gefais i yn paratoi dwy bennod i'r gyfrol ac yna yn darllen yn ofalus y gyfrol a chlywed ing ein gofid a llawenydd a gorfoledd ein cyfraniad.

Yn bur,

D. Ben Rees.

Pob Eglwys i Bobman

Eleni mae Cyngor Cenhadaeth Byd-eang (CWM) yn datlu ei deugeinfed pen-blwydd. Dros y blynyddoedd fe'i hadwaenid wrth deitlau gwahanol gan adlewyrchu cyfnodau a meddylfryd cenhadol gwahanol. Blwyddyn y sefydlu ydoedd 1795 a *Y Gymdeithas Genhadol* oedd yr enw cyntaf (daeth yn *Gymdeithas Genhadol Llundain (LMS)* yn 1818). Dyma gyfnod ymestyn dylanwad y deffroad efengylaidd drwy gyfleoedd newydd Yr Ymerodraeth Brydeinig. Y meddylfryd oedd mynd allan i "achub" y paganiaid truaidd. Sefydlwyd eglwysi ar batrymau'r rhai oedd yn anfon a datblygwyd patrwm o Eglwysi "cyfoethog" y Gorllewin yn anfon cenhadol a chynnal gweithgarwch addysgol, efengyleiddiol ac iacháu mewn mannau "tlodaidd" yn y byd.



Erbyn canol yr 20g roedd y patrwm hwn yn chwythu ei blwch yn bennaf oherwydd bod yr Eglwysi newydd a sefydlwyd yn dod i'w hoed a'r ymerodraeth yn chwala wrth i wledydd adennill eu rhyddid. Yn 60au'r ganrif mabwysiadwyd enw mwy cynhwysol ond eto enwadol – *Congregational Council for World Mission*. Buan y sylweddolwyd bod

angen newid deallusol mwy sylfaenol. Teimlai'r eglwysi "ifanc" yr angen i gyfrannu at gynllunio a gweithgarwch cenhadol byd-eang a golygai hynny rannu cyfrifoldeb ac awdurdod a chadarnhawyd y newidiadau hyn mewn cynhadledd yn Singapore 1975.

Y Cyfundeb a CWM

Yn dilyn cau'r drysau yn India yn 1968 a than arweiniad y Parch M R Mainwaring, ysgrifennydd Bwrdd y Genhadaeth ar y pryd ac ar argymhelliad y Bwrdd cadarnhaodd Cymanfa Gyffredinol 1978 y bwriad i'r Corff ymgeisio am aelodaeth o'r Cyngor newydd hwn. Fe'n derbyniwyd ac felly aethom yn ôl at ein gwreiddiau cenhadol byd-eang cyn i ni sefydlu ein meysydd ein hunain yn 1840. Cawsom sedd wrth y "Bwrdd Crwn" ac ymddiriedwyd i Fwrdd y Genhadaeth fod y cyswllt â'r teulu hwn. Roedd yn gyfle newydd i roi a rhannu, i dderbyn ac i berthyn ar y gwastad byd eang gan ehangu gorwelion a chlosio hefyd at eglwysi Adran Ewrop, yn arbennig Eglwys yr Iseldiroedd.

(i'w barhau)

**Parch Dafydd Andrew Jones,
Caerdydd**

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser (parhad o dudalen 1)

gan Dduw! Braint ydyw a estynnir gan Dduw sy'n arwain at Gyflawnder Ysbrydol a Daearol. Nid oes eiliadau prinnach nac ecstasi llawnach na chael ymgolli mewn cariad dwyfol a "charu nes anghofio'r oriau/ Sy imi ar y ddaear hon," yn ôl cymhariaeth feiddgar Williams, Pantycelyn".

Rhodd ydyw. Rhodd Duw. Rhodd sy'n creu ac yn cynnal.

Dangoswch eglwys addolgar ac fe ganfyddwch eglwys fyw. Ond lle mae'r addoliad a'r canu'n ffurfiol, oer, fe gewch

weld cynulleidfa sydd ar ddarod. Mae addoliad a chanu mawl yn hanfodol i'r eglwys, i bobl Dduw. Mae'n brofiad sydd ar ganol ffrwd ein hetifeddiaeth. Meddai Awstin Sant ei hun.

Y mae yna Bleser yn perthyn i'r rhai sydd nad ydynt yn chwennych cydnabyddiaeth arall; oherwydd y Llawenydd ydyw Ti dy hunan! A dyma yw'r bywyd Gwynfydedig, i lawenhau (wrth droi) tuag atat ti, amdanat ti ac er dy fwyn di.

E-bost a'r Goleuad

Gall pwy bynnag sydd am anfon erthyglau a lliniau i'r *Goleuad* wneud hynny ar:

goleuad@ebpcw.org.uk